



Creu Menter



Y Mudiad

Mae Creu Menter yn is-gwmni i Cartrefi Conwy, a ddechreuodd yn 2015 ac mae wedi tyfu'n gyflym i ddod yn Gontractwr Cymdeithasol o Ddewis ar gyfer Gogledd Cymru, gan ddarparu ystod o wasanaethau i'r sector cyhoeddus a phreifat. Mae Creu Menter yn gontractwr adeiladu a chynnal a chadw gyda gwahaniaeth. Buddsoddir 100% o'u helw masnachol i'w pwrpas cymdeithasol, sef helpu tenantiaid a phobl leol i fentrau cyflogaeth a gwirfoddoli. Mae Creu Dyfodol yn academi gyflogaeth unigryw sy'n ceisio rhoi cyfleoedd cyflogaeth â thâl i bobl leol, yn ogystal â chynnig cymwysterau a phrofiad gwaith ystyrlon.

Canlyniadau'r adroddiad

- Roedd 88% o'r gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod wedi gwella cyfleoedd cyflogaeth
- Roedd 70% o'r gwirfoddolwyr yn teimlo mwy o foddhad o gyflogaeth neu waith
- Roedd 88% yn teimlo bod gwell teimladau o hunanwerth / teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ar ôl gwirfoddoli gyda Creu Menter
- Gwnaeth canlyniadau'r academi gyfraniad cadarnhaol at nodau Llesiant Cymru o dan ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sef Cymru Gydnerth a Chymru Iachach



“Rydw i wedi bod yn hunangyflogedig am 30 mlynedd ac wedi gofalu am fy ngŵr am 4 blynedd ac yna bu farw. Doeddwn i ddim yn gwybod ble i ddechrau, doeddwn i ddim fy hun, doeddwn i ddim yn adnabod fy hun. Roeddwn i'n gallu defnyddio Facebook, ond dyna'r oll o'm sgiliau digidol. Gofynnais a oedd cwrs i'm helpu, ac yna cefais fynd ar raglen Creu Menter. Fe wnes i wirfoddoli i roi fy sgiliau ar waith. Yna daeth swydd yn yr adran honno a chefais ei chynnig. Roeddwn i'n teimlo'n hyderus i ymgeisio am y swydd, ac roedd fy rheolwr yn gwybod fy mod i'n medru gwneud y swydd cyn y cyf-weliad.”

Cyn-wirfoddolwr

Y camau nesaf

“Profodd gweithio mor agos a thîm Mantell Gwynedd a CVSC ar gynhyrchu ein hadroddiad gwerth cymdeithasol i fod yn gyfle gwych i ni yma yn Creu Menter fyfyrto ar gyflawniadau ein cydweithwyr a'n gwirfoddolwyr, dathlu llwyddiannau a nodi meysydd i'w datblygu yn y dyfodol. Rydym wrth ein bodd â chasgliad yr adroddiad ar werth cymdeithasol ein gwasanaeth gwirfoddoli, a oedd yn dangos bod pob £ 1 a fuddsoddwyd yn y prosiect yn werth £ 6 i gymdeithas, a chyfrifwyd yr adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiad i fod yn fwy na £ 360,000 y flwyddyn. Rydym hefyd yn gyffrous i gynnwys argymhellion yr adroddiad yn ein cynllunio strategol wrth symud ymlaen.”

Sharon Jones, Cyfarwyddwr Partneriaethau - Gwerth Cymdeithasol



svc@mantellgwynedd.com

www.mantellgwynedd.com/social-value-cymru.html

